# Protocol Argyfwng Tywydd Garw ar gyfer Pobl sy'n Cysgu Allan

## 1. Cyflwyniad

1.1. Ar adegau o dywydd garw, mae Cyngor Sir Fynwy yn cydnabod bod pobl sy'n cysgu allan yn arbennig o agored i niwed a marwolaeth, a dylai felly wneud darpariaeth i atal hyn rhag digwydd.

1.2. Gan nad oes diffiniad llym o'r hyn sy'n cyfrif fel "tywydd garw", bydd Cyngor Sir Fynwy yn mabwysiadu dull synnwyr cyffredin ac yn rhoi mesurau ar waith i nodi unrhyw dywydd a allai gynyddu'r risg o niwed difrifol i bobl sy'n cysgu allan. Gall tywydd garw gynnwys oerfel, gwynt neu law.

1.3. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r trefniadau y bydd Cyngor Sir Fynwy yn eu rhoi ar waith i sicrhau nad yw pobl sy'n cysgu allan mewn perygl o farw yn ystod tywydd oer a garw eithafol, ac fe'i gelwir yn Brotocol Argyfwng Tywydd Garw.

1.4. Mae'r protocol yn diffinio pobl sy'n cysgu allan fel:

1.4.1. Pobl sy'n cysgu, ar fin setlo am y nos (yn eistedd mewn/eistedd ar neu'n sefyll wrth ymyl eu dillad gwely) neu wedi setlo yn yr awyr agored (megis ar y strydoedd, mewn pebyll, drysau, parciau, llochesau bysiau neu wersylloedd). Pobl sydd wedi'u lleoli mewn adeiladau neu leoedd eraill nad ydynt wedi'u cynllunio ar gyfer byw ynddynt (megis grisiau, ysguboriau, siediau, meysydd parcio, ceir, cychod adfeiliedig, gorsafoedd neu lochesau dros dro sy'n aml o focsys cardbord)

## 2. Diben y Protocol

2.1. Pwrpas y protocol yw sicrhau bod yr holl gamau angenrheidiol yn cael eu cymryd i symud pobl sy'n cysgu allan o'r strydoedd ac i mewn i fan cysgod, os credir eu bod mewn perygl o farw oherwydd cysgu allan yn ystod tywydd oer a garw eithafol.

## 3. Pryd mae trefniadau'r protocol yn cael eu gweithredu?

3.1. Bydd y Swyddog Opsiynau Tai ar Ddyletswydd yn gwirio rhagolygon y tywydd yn ddyddiol drwy ddefnyddio Gwefan y Swyddfa Feteorolegol.

3.2. Am gyfnodau o oerfel eithafol, mae'r protocol yn cael ei sbarduno pan ragwelir bod tymheredd y nos yn sero gradd Celsius neu'n is am dair noson yn olynol ar gyfer Sir Fynwy.

3.3. Ar gyfer mathau eraill o eithafion tywydd, er enghraifft gwynt a glaw, bydd y Cyngor yn defnyddio dull pragmatig yn seiliedig ar rybuddion meteorolegol a

ddynodwyd yn goch, a'r tebygolrwydd y bydd niwed difrifol yn digwydd oherwydd cyfnodau estynedig o gysgu ar y stryd, cyn sbarduno'r protocol.

3.4. Cyn gynted ag y bydd y protocol yn cael ei sbarduno, bydd y Swyddog Opsiynau Tai ar ddyletswydd yn cysylltu â'r sefydliadau perthnasol asiantaethau allanol a mewnol, i gynghori bod y Protocol Argyfwng Tywydd Garw ar waith, gyda manylion am bwy i gysylltu â hwy os ydynt yn adnabod unrhyw bobl sy'n cysgu allan.

**4. Pwy sy'n gymwys i gael help?**

4.1. Unrhyw un sy'n cysgu allan ar y strydoedd yn yr oerfel eithafol. Mae hyn yn cynnwys y rhai heb fynediad at arian cyhoeddus fel gwladolion A10 o wladwriaethau derbyn yr UE.

4.2. Mae'n rhaid i'r sawl sy'n cysgu allan:

- bod mewn perygl os ydynt yn parhau i gysgu allan yn ystod y tywydd garw
- heb unman i gysgu dan do yn ystod y tywydd garw (nid yw dan do yn cynnwys ceir, siediau na garejys nac unrhyw adeilad nad yw wedi'i gynllunio ar gyfer byw ynddo)
- cytuno i'r cymorth a gynigir gan y Cyngor

4.3. Gall llawer o bobl sy'n cysgu allan fod yn amheus o wasanaethau o'r fath ac yn llai tebygol o ymgysylltu. Mae'r tywydd oer eithafol yn cynyddu'r risg o farwolaeth neu salwch difrifol i bobl sy'n cysgu allan. O ystyried hyn, gall gwrthod derbyn cymorth yn ystod y cyfnod hwn fod yn sail i sbarduno atgyfeiriadau at wasanaethau eraill, megis ar gyfer asesiadau iechyd meddwl.

4.4. Mewn amgylchiadau prin, efallai y byddwn yn gwrthod darparu ar gyfer rhywun os ystyrir ei bod yn risg rhy uchel i roi'r person hwnnw i mewn i lety gwely a brecwast, er enghraifft, ar gyngor yr heddlu, gwasanaethau prawf neu iechyd meddwl neu pan fydd unigolyn yn ymosodol, treisgar neu fygythiol. Mewn amgylchiadau o'r fath, trafodir hyn gyda'n Rheolwr Opsiynau Tai a'i gofnodi'n glir.

**5. Gweithdrefn**

5.1. Os yw'r sawl sy'n cysgu allan yn bodloni'r meini prawf uchod, byddant yn cael cynnig llety brys sy'n debygol o fod mewn llety gwely a brecwast ar gyfer cyfnod y tywydd garw.

5.2. Bydd y Tîm Opsiynau Tai yn rheoli'r trefniadau llety brys a byddant yn rhoi'r bobl sy'n cysgu allan, y maent yn ymwybodol ohonynt, mewn llety brys yn ystod yr amser y bydd y Protocol Argyfwng Tywydd Garw yn weithredol. Gellir cysylltu â nhw ar 01633 644644 yn ystod oriau swyddfa a thu allan i oriau swyddfa.

5.3. Bydd y llety yn cael ei gadarnhau cyn hanner dydd o ddydd i ddydd.

5.4. Bydd rhagolygon y tywydd yn cael ei wirio'n ddyddiol ac unwaith y rhagwelir y bydd y tymheredd isaf wedi codi uwchlaw sero gradd Celsius, ni fydd llety argyfwng yn cael ei ddarparu mwyach.

5.5. Ar ôl dod â'r protocol i derfyn, bydd Opsiynau Tai yn gweithio gyda'r rhai sydd wedi cael eu lletya dros dro o dan y protocol i nodi opsiynau llety ac i leihau pobl sy'n dychwelyd i'r strydoedd lle bo hynny'n bosibl.

## 6. Goblygiadau Ariannol

6.1. Bydd cost darparu llety brys yn ystod y Protocol Argyfwng Tywydd Garw yn cael ei dalu o adnoddau'r Cyngor presennol er y bydd ymgeiswyr yn cael eu cefnogi i wneud cais am fudd-dal tai.

## 7. Monitro ac Adolygu

7.1. Bydd y wybodaeth ganlynol yn cael ei chofnodi a'i defnyddio i fonitro niferoedd y rhai sy'n cysgu allan yn y fwrdeistref:

- Nifer a chyfansoddiad aelwydydd sy'n cysgu allan.
- Nifer o nosweithiau ar gyfer pob aelwyd.
- Cost llety brys y nos ar gyfer pob aelwyd.
- Bydd y protocol hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol. Bydd hyn yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad â'n sefydliadau partner a rhanddeiliaid allweddol sy'n gweithio gyda phobl sy'n cysgu allan.